Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.2 Cyflwyniad i ddatganoli Cymreig a Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn amlinellu hanes datganoli yng Nghymru, ac yn cyflwyno elfennau'r trefniant datganoli cyfredol - y Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn ystyried pam fod hyn yn bwysig i'r trydydd sector yng Nghymru.

Hanes datganoli

Mae pobl yn edrych ar ddatganoli yng Nghymru fel ffenomen ddiweddar. Fodd bynnag, dechreuodd datganoli gweinyddol yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif gyda chreadigaeth adrannau Cymreig ar wahân o fewn Gweinyddiaethau Addysg, Amaeth, Yswiriant ac Iechyd. Roedd Gweinidog Materion Cymreig yn cyd-lynu ystod eang o swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gaerdydd rhwng 1951 a 1964. Yn 1964, sefydlwyd y Swyddfa Gymreig ac apwyntiwyd yr Ysgrifennydd Gwladol cyntaf i Gymru. Roedd ymgais gyntaf creu Cynulliad Cymru yn 1979 pan gynhaliwyd refferendwm gan Lywodraeth y DU ar Ddydd Gŵyl Dewi. Pleidleisiodd pobl Cymru 4:1 yn erbyn datganoli ar yr adeg yma. Yn ystod y 1980au, daliodd y Swyddfa Gymreig i dyfu a throsglwyddwyd mwy o swyddogaethau hyd at y 1990au pan ddigwyddodd newid mawr.

Yn 1997 cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn o'r enw 'Llais i Gymru', a gynigiodd Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Cefnogwyd hyn gan bobl Cymru mewn refferendwm yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a'r canlyniad oedd pasio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a sefydliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999.

Sefydlwyd y Cynulliad fel corff unigol corfforaethol gyda pheth pwerau a chyfrifoldebau a drosglwyddwyd oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd y pwerau cyfyngedig yma yn galluogi'r Cynulliad i wneud rheolau a rheoliadau cyffredinol (a elwir yn is-ddeddfwriaeth) dan Ddeddfau Llywodraethol y DU a phenderfynu ar flaenoriaethau polisi yng Nghymru, ond ni allai wneud ei ddeddfau ei hun (a elwir yn ddeddfwriaeth sylfaenol) neu godi ei drethi ei hun.

Serch hynny, mae datganoli wedi bod yn broses barhaus yng Nghymru ac, yn 2002, sefydlwyd Comisiwn Richard – a oedd yn Gomisiwn Annibynnol - gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd, sef Rhodri Morgan, er mwyn edrych ar hyd a lled pwerau'r Cynulliad a materion cyfansoddiadol eraill cysylltiedig. Ysgogodd adroddiad y Comisiwn yn 2004 y cam nesaf ym maes datganoli ar ffurf Papur Gwyn Llywodraeth Lafur y DU, sef 'Trefn

Lywodraethu Well i Gymru', a ddaeth yn 'Fesur Llywodraeth Cymru 2005' ac wedyn yn "Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006" a ddaeth i rym ym mis Mai 2007.

Yn sgil dod â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym ym mis Mai 2007 rhoddwyd pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol am y tro cyntaf. Galwyd y deddfau Cymreig hyn yn Fesurau'r Cynulliad ac ni ellid ond eu gwneud os oeddynt yn berthnasol i'r 20 maes datganoledig AC os oedd San Steffan wedi rhoi caniatâd yn gyntaf, ar sail bob achos yn unigol. Fodd bynnag, mae Ddeddf Llywodraeth Cyrmu 2006 yn darparu ar gyfer rhoi mwy o bwerau i Gymru, ond dim ond os bydd dinasyddion Cymru yn cytuno i hynny drwy refferendwm. Cynhaliwyd ac enillwyd y refferendwm hwnnw ar 3ydd Mawrth 2011.

Yn y refferendwm, gofynnwyd i bobl Cymru a oeddynt yn cytuno y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael pwerau deddfu yn yr 20 maes. Cafwyd pleidlais IE, gan ddod â'r system o ofyn i Senedd y DU am bwerau ar sail bob achos unigol i ben a rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu dros Gymru yn yr 20 maes polisi.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae'r setliad datganoli presennol a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Daeth y Ddeddf i rym yn 2007 gan nodi newid sylweddol ym mhwerau a phrosesau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn sgil y Ddeddf, rhannwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru (a elwir yn Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Ddeddf) yn swyddogol, gan greu gwahaniaeth clir rhwng y ddeddfwrfa (sef y Cynulliad Cenedlaethol, y corff sy'n deddfu) a'r weithrediaeth (sef Llywodraeth Cymru, y corff sy'n gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu polisïau).

Roedd y Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol am y tro cyntaf. I ddechrau (rhwng 2007 a 2011) gallai'r Cynulliad ddeddfu ar yr 20 maes datganoledig, ond dim ond os oedd San Steffan yn rhoi caniatâd iddo wneud hynny, a hynny ar sail bob achos yn unigol. Fodd bynnag, roedd y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer refferendwm ar y mater hwn. Cynhaliwyd ac enillwyd y refferendwm ym mis Mawrth 2011 ac erbyn hyn mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i wneud deddfau sylfaenol penodol i Gymru yn yr 20 maes datganoledig.

Y meysydd polisi datganoli yw:

- Amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygiad economaidd
- Addysg a hyfforddiant
- Yr amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân
- Bwyd

- Gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio tref a gwlad
- Amddiffyn dŵr a llifogydd
- Yr iaith Gymraeg

Mae'n ddefnyddiol pwysleisio tra bod Cymru yn medru gwneud deddfau mewn sawl maes gwahanol, nid yw'n medru gwneud hynny ym mhob maes, ac mae yna lawer maes heb eu datganoli eto. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth y DU yn San Steffan yw'r prif ddeddfwr o hyd mewn meysydd megis amddiffyn, materion tramor, polisïau cyllid, ariannol ac economaidd, darlledu, nawdd cymdeithasol, mewnfudiad, cyfraith cyflogaeth, plismona a chyfraith droseddol.

Y trydydd sector a Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae'r Ddeddf yn darparu cyfleoedd sylweddol i'r trydydd sector ddweud ei ddweud ynghylch materion sydd o bwys i'r sector ac i'r bobl y mae'n eu cynrychioli ac yn gweithio â nhw. Er mwyn gwneud deddfau a pholisïau cadarn, mae angen i'r Cynulliad glywed barn ei ddinasyddion. Gyda'i arbenigedd a'i brofiad rheng flaen, mae'r trydydd sector mewn sefyllfa unigryw i gyflwyno tystiolaeth gadarn er mwyn dylanwadu ar y deddfau a wneir. Mae'r prosesau deddfwriaethol wedi creu amryfal gyfleoedd i ddylanwadu, er enghraifft: cysylltu â'r Gweinidog, yr Aelod Cynulliad neu'r Pwyllgor perthnasol; cyfrannu at ymgynghoriadau cyn-deddfu; cymryd rhan yn y broses o graffu ar ddeddfwriaeth; a defnyddio proses ddeisebau'r cyhoedd.

Gwybodaeth Bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Llywodraeth Cymru
www.wales.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.assemblywales.org

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – y testun llawn
www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060032_en_1

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk